# Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod ar 26 Mai 2004

# Cynigion a Gyflwynwyd ar 19 Mai 2004

**Y Ddadl Fer**

**NDM1966 Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Cyllid ar gyfer Ysgolion Cymru

**NDM1967 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli a Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2004, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mai 2004.

**NDM1968 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mai 2004, mewn perthynas â'r Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli a Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2004; ac

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli a Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol â:
a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mai 2004; a’r
b) Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mai 2004.

**NDM1969 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor y Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Diwygio) (Cymru) 2004, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mai 2004.

**NDM1970 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mai mewn perthynas â'r Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Diwygio) (Cymru) 2004; ac

2. Yn cymeradwyo bod y Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Diwygio) (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol â:
a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mai 2004; a'r
b) Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mai 2004

**NDM1971 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r camau a gymerwyd o ran creu economi gystadleuol a chynaliadwy drwy weithredu "Cymru'n Ennill";

2. Yn croesawu gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid o ran mynd ati i wireddu gweledigaeth Menter Gaffael Cymru o fabwysiadu agwedd gydgysylltiedig at gaffael yng Nghymru er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian a gwell gwasanaethau cyhoeddus tra'n ymgorffori datblygu cynaliadwy yn eu gweithgareddau caffael;

3. Yn cefnogi'r bwriad i greu Tasglu Busnes Cynaliadwy a'i nod o hwyluso mwy o fanteision economaidd o'r gwariant yn y sector cyhoeddus drwy greu cysylltiad rhwng anghenion masnachol y sector cyhoeddus a datblygiad economaidd ehangach; ac

4. Yn cydnabod bod dull arloesol Llywodraeth Cynulliad Cymru o fynd i'r afael â chaffael yn y sector cyhoeddus yn ategu agenda Cymru'n Ennill o ran chwalu'r rhwystrau i fentrau Cymreig sy'n cystadlu am fusnes yng Nghymru ac yn ei ennill.

Bydd y ddolen gyswllt isod yn eich arwain at y ddogfen Cymru'n Ennill.
http://www.cymru.gov.uk/themesbudgetandstrategic/content/neds/winningwales-refresh-e.pdf

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 20 Mai 2004

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynnig:

**NDM1971**

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Gweinidog i'w gwneud hi'n ddyletswydd ar Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ac ar awdurdodau lleol i adrodd yn flynyddol ar faint o gynnyrch lleol y maent wedi'i gaffael.

**2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod caffael bwyd lleol gan y sector cyhoeddus yn gymorth holl bwysig i ffermydd bach teuluol sy'n fath cyffredin iawn yn y sector amaethyddiaeth yng Nghymru.

**3. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Gweinidog i sicrhau bod digon o gyllid y blynyddoedd cynnar ar gael i gynnal yr holl brosiectau caffael lleol.

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 1, rhoi 'diffyg' ar ôl 'Yn nodi'r'

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd Pwynt 4:

', ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyhoeddi canllawiau ar fyrder ar gyfer cyrff cyhoeddus ar ddefnyddio cynnyrch lleol'

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 21 Mai 2004

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau a ganlyn i gynigion:

**NDM1971**

**1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ym mhwynt 1, dileu 'Yn nodi'r camau a gymerwyd' a rhoi yn ei le

'Yn nodi'r methiant i gymryd camau boddhaol'